



**TÎM CYFLOGRES, PENSIYNAU a CHYLLID**  
**Adnoddau Dynol (AD)**  
**Cynorthwydd Gweinyddol**  
**GRADD 4**  
**37 awr yr wythnos**  
**CYFLOG: o £18,795 – £19,171**  
**(bydd pob swydd yn amodol ar werthusiad swydd)**

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf blaenllaw y DU a'r mwyaf o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae ardal ein Gwasanaeth yn ymestyn o Gas-gwent yn y Dwyrain i Bort Talbot yn y Gorllewin ac o arfordir y De i Fannau Brycheiniog yn y Gogledd. Rydym yn gweithredu o 49 o orsafoedd tân ar draws ardal y Gwasanaeth ac mae ein Pencadlys, lle lleolir y swydd hon, yn Llantrisant.

**Ai chi yw hwn?** - Rydym yn chwilio am berson profiadol, proffesiynol, brwdfrydig a threfnus i weithio o fewn ein Tîm Cyflogres, Pensiynau a Chyllideb brysur. Bydd y Cynorthwydd Gweinyddol AD fydd yn gyfrifol am ddarparu cymorth gweinyddol o ddydd i ddydd o fewn y tîm a'r Adran AD yn gyffredinol ill dau.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cynorthwyo'r adran mewn darparu gwasanaeth proffesiynol a dod yn aelod allweddol o'r tîm, sy'n ymroddedig i weithredu'n gywir ac yn effeithlon, gan sicrhau bod yr holl derfynau amser yn cael eu cyflawni'n amserol, wrth gefnogi'r tîm cyfan ar draws tri llif gwaith amrywiol a diddorol dros ben.

**Sut allaf wneud gwahaniaeth?** - Byddwch chi'n cyfrannu i dîm sy'n ymroddedig i wella parhaus ac yn cynorthwyo i adnabod, archwilio a gweithredu cyfleoedd i wella effeithlonrwydd.

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

**Manteision:**cyflog cystadleuol, oriau gwaith hyblyg, hyd at 35 o ddyddiau o wyliau blynyddol (bydd gwyliau banc yn ychwanegol), cyfleoedd pensiwn gwyach a gostyngiadau adwerthol.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad boddhaol gan Wasanaeth Datgelu'r Alban ac ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Gellir canfod mwy o fanylion mewn perthynas â'r swydd hon o fewn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person. Os bydd gennych ymholiadau pellach, mae croeso i chi gysylltu â'r Rheolwr Llinell Kim Jeal ar e-bost: [k-jeal@decymru-tan.gov.uk](mailto:k-jeal@decymru-tan.gov.uk) neu ffonio 01443 232189.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o dudalen Gweithio i Ni /Swyddi Gwag Diweddaraf ein gwefan ar [www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk) Gellir dychwelyd ffurflenni cais gorffenedig drwy law e-bost i: [personel@southwales-fire.gov.uk](mailto:personel@southwales-fire.gov.uk) neu drwy'r post i'r Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX. Noder: **NID YDYM YN DERBYN CV.**

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw: 21/05/2019 am 12:00 ganol dydd.**

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith neu'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

